



Iau, 08 Medi 2022 – 7.30yh  
Neuadd Ty'n y Porth, Penmachno

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 08 Medi 2022**  
am 7.30 yn Neuadd Ty'n y Porth, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
3. Datgan diddordeb
4. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
5. Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad Cyllidol
8. Materion Cynllunio
9. Materion eraill

**Presennol:**

Claire Roberts  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Is Gadeirydd)  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)  
Jonathan Cawley (Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheolaeth Tir, Parc Cenedlaethol Eryri)

**Ymddiheuriadau:**

Ceri Phillips  
Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd)

Agorwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd.

Minutes of a meeting held on **Thursday 08 September 2022** at 7.30 at Neuadd Ty'n y Porth

1. Welcome and apologies for absence
2. A report by the Director of Planning and Land Management, Snowdonia National Park Authority
3. Declaration of interests
4. Confirmation of the minutes from the previous meeting
5. Matters arising from the minutes (not otherwise on the agenda)
6. Correspondence
7. Financial Report
8. Planning Applications
9. Any other business

**Present:**

Claire Roberts  
Daniel Tomos (Clerc)  
Dylan Davies  
Eifion Davies  
Eryl Owain (Deputy Chair)  
Geraint Thomas  
Owen Davis  
Wil Edwards  
Dilwyn Roberts (County Councillor)  
Jonathan Cawley (Director of Planning and Land Management, Snowdonia National Park)

**Apologies:**

Ceri Phillips  
Dafydd Gwyndaf (Chairperson)

The meeting was opened by the Deputy-chairperson.

Roedd nifer o gynghorwyr wedi bod mewn cyfarfod tai cyn cyfarfod y Cyngor Cymuned lle cofnodwyd bod 23 o dai gwag, 78 ail gartref a 32 eiddo hunanarlwyo ym Mro Machno.

Many councillors had attended a housing meeting before the Community Council meeting where it was reported that there are 23 empty houses, 78 second homes and 32 self-catering premises in Bro Machno.

### **Adroddiad gan Jonathan Cawley, Gyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Adroddwyd bod ymweliad safle â Bro Machno ar 31 Awst wedi bod yn gadarnhaol iawn.

### **A report by Jonathan Cawley, the Director of Planning and Land Management, Snowdonia National Park Authority**

It was reported that a site visit to Bro Machno on 31 August had been very positive.

Adroddwyd y bydd 'dosbarthiadau defnydd' newydd ar gyfer eiddo domestig o fis Hydref: C5 (Ail Gartref), C6 (Llety Gwyliau Tymor Byr). Dywedwyd wrth y Cyngor sut y bydd y rhain yn berthnasol ym Mro Machno.

It was reported that from October there will be new 'use classes' for domestic property: C5 (Second Home), C6 (Short-term Holiday Let). The Council were told how these will apply in Bro Machno.

Ymhellach, adroddwyd bod Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol ar fin cael ei adolygu a dylai'r gymuned ddechrau meddwl am flaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio yn y dyfodol.

Further, it was reported that the National Park's Local Development Plan is coming up for review and the community should start to think about priorities for the planning system in the future.

Diweddarwyd y Cyngor Cymuned ar faterion amrywiol a adroddwyd i Awdurdod y Parc yn ddiweddar a pha rai o'r rhain fydd yn wynebu camau gorfodi.

The Community Council was updated on various issues reported to the Park Authority recently and which of these will face enforcement action.

Diolchwyd i Mr Cawley am gymryd yr amser i fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned.

Mr Cawley was thanked for taking the time to attend the Community Council meeting.

### **Datgan diddordeb**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

### **Declaration of interests**

There were no declarations

### **Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **14 Gorffennaf 2022** fel rhai cywir, Claire Roberts yn cynnig a Wil Edwards yn eilio.

### **Confirmation of the minutes**

The minutes of the **14 July 2022** meeting were accepted as a true record, proposed by Claire Roberts and seconded by Wil Edwards.

### **Materion yn codi:**

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Adroddwyd bod y pentyrrau pren ar Ffordd Grenyn bron i gyd wedi'u symud.

### **Matters arising:**

**Natural Resources Wales:** It was reported that the timber stacks on Grenyn Road had almost all been removed.

**Toiledau Cyhoeddus:** Yn dilyn dros 70 o e-byst rhwng y Clerc ac EON, adroddwyd bod y mesurydd trydan wedi'i newid a bydd y Cyngor Cymuned nawr yn cael ei dalu am yr ynni a gynhyrchir gan y paneli solar.

**Public Toilets:** It was reported that, following more than 70 emails between the Clerk and EON, the electricity meter had been changed and the Community Council will now be paid for the energy generated by the solar panels.

**Wal Mynwent Arwelfa:** Adroddwyd bod Dylan Davies wedi ysgrifennu'r rhestr o waith. Bydd yn anfon y rhestr at y Clerc i'w hanfon at gontractwyr. Trafodwyd rhestr o sawl contractwr posib.

**Arwelfa Cemetery Wall:** It was reported that Dylan Davies has written the list of work. He will send the list to the Clerk to send out to contractors. A list of several possible contractors was discussed.

**Gwaith Torri Gwair:** Penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir yn dilyn safon wael iawn y torri gwair.

**Grass Cutting:** It was decided to write to the County Council following the very poor standard of grass cutting.

**Byrddau Picnic:** Adroddwyd bod y cais am grant wedi ei gyflwyno.

**Picnic Tables:** It was reported that the grant application has been submitted.

**Ffos Gudd ger Capel Ebenezer:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi ymchwilio.

**Hidden Ditch near to Capel Ebenezer:** It was reported that the County Council have investigated.

**Tyddyn Gethin:** Cynigiodd y Cynghorydd Sir wirio'r statws cais am ddrych gyferbyn â'r gyffordd.

**Tyddyn Gethin:** The County Councillor offered to check the status of a request for a mirror opposite the junction.

**Car Achosi Rhwystr:** Adroddwyd bod y perchennog wedi symud y cerbyd yn garedig iawn.

**Car Causing Obstruction:** It was reported that the owner has very kindly moved the vehicle.

**Toriad Pŵer:** Adroddwyd y bydd SP Energy yn ymweld â'r pentref ar 15 Medi i gwrdd â chynghorwyr i egluro beth achosodd y difrod.

**Power Cut:** It was reported that SP Energy will visit the village on 15 September to meet councillors explain what caused the damage.

**Cerbydau'n Goryrru Ffordd Ysbyty:** Adroddwyd fod y Cyngor Sir yn ystyried hyn yn bennaf fel mater i'r heddlu ond byddant yn edrych i mewn iddo ymhellach os oes angen. Penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir gan awgrymu'n gryf eu bod yn casglu tystiolaeth fideo.

**Speeding Vehicles Ysbyty Road:** It was reported that the County Council viewed this primarily as a matter for the police but they will look into it further if requested. It was decided to write to the County Council strongly suggesting that they gather video evidence.

**Lorïau yng Nghwm Penmachno:** Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r broblem ond nid oes ganddynt gyllideb i newid yr arwyddion ar yr A5 ar hyn o bryd. Penderfynwyd cysylltu â nhw eto ym mis Ebrill.

**Lorries in Cwm Penmachno:** The Welsh Government are aware of the problem but do not currently have a budget to change the signs on the A5. It was decided to contact them again in April.

## Gohebiaeth

## Correspondence

**Gorlan, Penmachno:** Derbyniwyd sawl cwyn am wersyllfa gyda'r perchennog eisoes wedi mynd y tu hwnt i'r rheol 28 diwrnod. Roedd y perchennog wedi cael ei ysgrifennu ato gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac roedd ganddo 7 diwrnod i'w ateb.

**Gorlan, Penmachno:** Several complaints had been received about a campsite with the owner already having exceeded the 28 days rule. The owner had been written to by the National Park Authority and had 7 days to reply.

**Janet Finch-Saunders:** Adroddwyd fod yr Aelod Senedd wedi ysgrifennu llythyr at y Clerc oherwydd bod un o drigolion Cwm Penmachno yn anhapus gyda threfn y Cyngor Cymuned ar gyfer cyhoeddi'r cofnodion drafft. Adroddodd y Clerc ei fod eisoes wedi dod i gytundeb gyda phreswlydd Cwm Penmachno cyn cyfarfod blaenorol y Cyngor Cymuned ym mis Gorffennaf.

**Janet Finch-Saunders:** It was reported that the Senedd Member had written a letter to the Clerk because a resident of Cwm Penmachno was unhappy with the Community Council's procedure for publishing draft minutes. The Clerk reported that he had already reached an agreement with the Cwm Penmachno resident before the previous Community Council meeting in July.

**WiFi Cymunedol:** Adroddwyd y Clerc fod llawer o bobl wedi dangos diddordeb mewn WiFi am ddim ym Mhenmachno. Na fydd EE yn darparu signal ffôn symudol yn y dyfodol agos, ni fydd y Cyngor Sir yn darparu WiFi ac oherwydd y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mae'n orfodol bod gan y Cyngor Cymuned gysylltiad rhyngwyd. Penderfynwyd gofyn am arian grant.

**Community WiFi:** The Clerk reported that many people had expressed an interest in free WiFi in Penmachno. EE will not be providing mobile phone coverage in the near future, the County Council will not provide WiFi and because of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 it is compulsory that the Community Council has an internet connection. It was decided to seek grant funding.

## Adroddiad Cyllidol

Nodwyd bod £12,059.24 yn y banc.

**Talwyd y biliau canlynol:** Planhigion i Gwm £43.50, Gari Wyn Morris (llwybrau cyhoeddus) £330, Conwy (Sgip cymunedol) £288, Galwadau ffôn y Clerc £1.82, E.ON Next (Toiledau cyhoeddus) £20, Google £9.20, Gwawr Owen (Gyda Diolch) £25, HSBC £8, Dŵr Cymru (Toiledau cyhoeddus) £74.03, Booker (Cynnyrch glanhau) £20.39

**Talwyd y canlynol i mewn:** SP Energy (iawndal) £150, Praesept £2,000

## Materion Cynllunio

**NP4/29/177A Fferm Carrog LL24 ORG**

**Adeiladu sied wartheg ar wahân a storfa tail/gwair cysylltiedig**

Penderfynwyd yn unfrydol i **gefnogi** r cais hwn.

**NP4/29/510A Foel, Penmachno. LL24 OAJ**

**Newid defnydd, ac addasiadau i adeilad allanol gwledig i greu anecs llety, cegin fasnachol a gweithdy crefft a gyda gweithdy a storfa ynghlwm, a gosod tanc septig tanddaearol**

Y teimlad oedd na allai'r Cyngor Cymuned gefnogi na gwrthwynebu'r cais hwn gan nad oedd digon o wybodaeth wedi'i chynnwys am y defnydd arfaethedig o'r datblygiad hwn.

## Materion eraill

**Rhyd-y-Gro:** Penderfynwyd adrodd coeden sydd wedi syrthio i'r afon ger y bont i CNC.

**Yr Ysgwyfraith:** Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am bant yn y ffordd.

## Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau 17 Tachwedd 2022 yn Neuadd Ty'n y Porth.

## Financial Report

It was noted that there was £12,059.24 in the bank.

**The following bills were paid:** Plants for Cwm £43.50, Gari Wyn Morris (footpaths) £330, Conwy (Community skip) £288, Clerk's phone calls £1.82, E.ON Next (WC) £20, Google £9.20, Gwawr Owen (with thanks) £25, HSBC £8, Dŵr Cymru (WC) £74.03, Booker (Cleaning product) £20.39

**The following was paid in:** SP Energy (compensation) £150, Precept £2,000

## Planning

**NP4/29/177A Carrog Farm LL24 ORG**

**Construction of detached cattle shed and associated manure/hay store**

It was decided unanimously to **support** this application.

**NP4/29/510A Foel, Penmachno. LL24 OAJ**

**Change of use, and alterations to rural outbuilding to create accommodation annex, commercial kitchen and craft workshop and with attached workshop and store, and installation of underground septic tank**

It was felt that the Community Council could neither support nor object to this application because not enough information was included about the intended use of this development.

## Other matters

**Rhyd-y-Gro:** It was decided to report a tree that has fallen into the river by the bridge to NRW.

**Yr Ysgwyfraith:** It was decided to report a dip in the road to the County Council.

## Next meeting

The next meeting will be held on Thursday 17 November 2022 at Neuadd Ty'n y Porth.